

Atodiad B

Dyma'r disgrifiadau y bydd y marcwyr yn eu defnyddio wrth asesu'r Prawf Ysgrifennu.

Grid Asesu'r Prawf Ysgrifennu

	Ysgrifennu	100 marc
	Rhan 1 – Cywiro	20 marc
Y1 1-22	22 eitem Rhoddir 1 marc am bob eitem sydd wedi ei chywiro'n briodol, (18 eitem). Rhoddir 0.5 marc am bob eitem sydd wedi ei chywiro'n briodol drwy ddefnyddio arfau cyfrifiadurol, (4 eitem).	
Y2	Rhan 2 – Trawsieithu	40 marc
Y2.1	Cywirdeb	10 marc
	9-10 ysgrifennu'n gywir iawn, ychydig iawn o fân wallau yn unig. 7-8 ysgrifennu'n gywir, gyda rhai camgymeriadau nad ydynt yn tynnu gormod o sylw. 5-6 ysgrifennu'n gywir ar y cyfan, er bod rhai camgymeriadau amlwg nad ydynt yn amharu ar ddealltwriaeth. 3-4 ysgrifennu'n eithaf gwallus, a'r camgymeriadau'n amharu ar ddealltwriaeth y darlennydd. 0-2 y testun yn cynnwys nifer o gamgymeriadau elfennol.	
Y2.2	Ystod	10 marc
	9-10 defnyddio ystod ragorol o gystrawennau a geirfa, sy'n gwbl briodol i'r dasg. 7-8 defnyddio ystod dda o gystrawennau a geirfa sy'n briodol i'r dasg. 5-6 defnyddio ystod foddhaol o gystrawennau a geirfa sy'n addas i'r dasg, er bod rhai bylchau amlwg. 3-4 defnyddio ystod gyfyng o gystrawennau a phatrymau a'r diffygion yn peri peth anhawster wrth ysgrifennu'r testun. 0-2 defnyddio ystod o gystrawennau a geirfa sy'n rhy gyfyng i gyflawni'r dasg yn foddhaol.	
Y2.3	Addasrwydd y testun	10 marc
	9-10 y testun terfynol yn gwbl briodol i'r dasg a osodwyd, e.e. ffurf, hyd, cywair neu'r gynulleidfa y bwriadwyd y testun ar ei chyfer. 7-8 y testun terfynol yn addas i'r dasg a osodwyd, er bod un neu ddwy agwedd (e.e. ffurf, hyd, cywair neu addasrwydd i'r gynulleidfa) yn llai addas. 5-6 y testun terfynol yn foddhaol, er bod rhai agweddau nad ydynt yn briodol, e.e. ffurf, hyd, cywair neu addasrwydd i'r gynulleidfa. 3-4 y testun terfynol yn anaddas o ran y dasg a osodwyd, neu'r ymgeisydd heb gyflawni'r gofynion o ran ffurf, hyd, cywair neu addasrwydd i'r gynulleidfa. 0-2 y testun terfynol yn gwbl anaddas i'r dasg.	

Y2.4	Pwyntiau allweddol 10 marc
	Mae 5 o bwyntiau allweddol y mae angen i'r ymgeisydd eu cynnwys yn y trawsiethiad, a fydd yn dangos eu bod wedi deall y testun gwreiddiol, Saesneg. Rhoddir 2 farc am bob pwynt allweddol a gynhwysir yn gyflawn ac yn briodol; Rhoddir 1 marc am bob pwynt allweddol a gynhwysir yn rhannol neu'n lled briodol.
	Rhan 3 – Ysgrifennu rhydd 40 marc
Y3.1	Cywirdeb 10 marc
	9-10 ysgrifennu'n gywir iawn, ychydig iawn o fân wallau'n unig. 7-8 ysgrifennu'n gywir, gyda rhai camgymeriadau nad ydynt yn tynnu gormod o sylw. 5-6 ysgrifennu'n gywir ar y cyfan, er bod rhai camgymeriadau amlwg nad ydynt yn amharu ar ddealltwriaeth. 3-4 ysgrifennu'n eithaf gwallus, a'r camgymeriadau'n amharu ar ddealltwriaeth y darlennydd. 0-2 y testun y cynnwys nifer o gamgymeriadau elfennol.
Y3.2	Ystod 10 marc
	9-10 defnyddio ystod ragorol o gystrawennau a geirfa, sy'n gwbl briodol i'r dasg. 7-8 defnyddio ystod dda o gystrawennau a geirfa sy'n briodol i'r dasg. 5-6 defnyddio ystod foddhaol o gystrawennau a geirfa sy'n addas i'r dasg, er bod rhai bylchau amlwg. 3-4 defnyddio ystod gyfyng o gystrawennau a phatrymau a'r diffygion yn peri peth anhawster wrth ysgrifennu'r testun. 0-2 defnyddio ystod gyfyng o gystrawennau a geirfa sy'n rhy gyfyng i gyflawni'r dasg yn foddhaol.
Y3.3	Cynnwys a threfn 10 marc
	9-10 y cynnwys yn rhagorol a'r ymgeisydd yn gallu cyflawni'r dasg yn ddeallus; y darn yn gwbl drefnus a'r pwyntiau'n dilyn ei gilydd yn rhesymegol. 7-8 y cynnwys yn dda iawn, ac yn dangos bod yr ymgeisydd yn gallu cyflawni'r dasg yn dda; y darn yn drefnus ar y cyfan. 5-6 y cynnwys yn foddhaol a'r ymgeisydd yn cyflawni'r dasg yn ddealladwy ar y cyfan; y darn yn weddol drefnus er bod rhai pwyntiau heb fod yn dilyn yn rhesymegol. 3-4 y cynnwys yn arwynebol ar y cyfan; y darn yn anhrefnus i raddau helaeth. 0-2 y cynnwys yn anfoddhaol; heb ôl trefn na strwythur amlwg.
Y3.4	Ateb y gofynion 10 marc
	Mae 5 o ofynion ym mhob sbardun. Rhoddir 2 farc am bob un o'r gofynion a atebir yn gyflawn ac yn briodol; Rhoddir 1 marc am bob un o'r gofynion a atebir yn rhannol neu'n lled briodol.

* Yn gyffredinol, mae 'mân wallau' yn cyfeirio at wallau sillafu neu wallau treiglo, yn hytrach na gwallau cystrawen neu ramadeg.